# Astudiaeth Achos: Llwybrau Datblygiad i blant 0-3 oed

**Mae Meithrinfa Dydd Sunray wedi ei lleoli mewn ysbgubor dau lawr wedi ei drawsnewid i'r pwrpas. Mae wedi ei leoli mewn ardal wledig ar gyrion Yr Wyddgrug Sir Y Fflint. Lynne Northcroft yw perchennog a chyfarwyddwraig Sunray, wnaeth agor Sunray ynghyd a'i theul ym Mehefin 2010 pan anwyd eu mab bychan, Edward.**

**Mae Meithrinfa Dydd Sunray yn darparu gofal dydd llawn i blant o 3 mis oed, hyd nes i blentyn fynychu ysgol llawn amser. Mae Sunray yn cael eu ariannu i ddarparu addysg feithrin. Mae Sunray hefyd yn darparu gofal cofleidiol a chlwb gwyliau, gyda'r clwb gwyliau yn cynig gofal i blant i fyny at 12 oed yn ystod gwyliau ysgol.**

**Oherwydd lleoliad yr adeilad, mae gan y plant lawer o gyfleon I fod allan yn yr awyr agored a'r cyfle i brofi natur ym mhob tymor. Mae'r meithrinfa yn ofod mawr, ond maent yn ymfalchio yn yr awyrgylch cartrefol, cariadus a hapus, sydd yn llawn o hwyl, a chyfleon dysgu sy'n herio ac yn procio'r meddwl sy'n addas ar gyfer datblygiad pob plentyn.**

**Daw'r enw Sunray o fferm deuluol y teulu Northcroft yn Zimbabwe. Mae'r enw Sunray yn darlunio chychwyn newydd a bywyd newydd.**

## Myfyrio ar ymarfer presennol ac ystyried sut i ymgorffori canllawiau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC) yn ein gwaith:

Trwy arolygiadau gan AGC ac Estyn, mae Sunray wedi'i chydnabod fel meithrinfa effeithiol o ran gwerthuso a gwneud gwelliannau sydd o fudd i'r plant a'r gofal a dderbyniant. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wella eu hunain yn barhaus. Unwaith y cafodd dogfennau ECPLC (ECPLC: Llwybrau Datblygiadol 0 i 3, ECPLC: Pecyn Cymorth Arfer Myfyriol, Fframwaith Ansawdd ar gyfer ECPLC yng Nghymru) eu rhannu â'r lleoliad, rhannodd rheolwyr hwy gyda'r staff a'u hannog i dreulio amser yn darllen ac yn ystyried y wybodaeth. Ychwanegwyd y dogfennau at agenda cyfarfod staff er mwyn i'r holl staff ddod â'u syniadau, cwestiynau ac unrhyw bryderon i'r grŵp a'r tîm rheoli.

Trafododd y tîm yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd ar draws y lleoliad, sut mae hyn yn llifo trwy'r gwahanol ystafelloedd ac ystyriodd y tîm ystyried sut y gallent gefnogi'r broses o ymgorffori'r canllawiau i wella eu hymarfer ar draws y lleoliad.

**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

Roedd ymateb y staff i'r dogfennau yn gadarnhaol ac roeddent yn teimlo eu bod yn cefnogi ethos presennol y lleoliad o ddysgu sy'n cael ei arwain gan blant. Teimlai'r staff fod y dogfennau'n llawn gwybodaeth ac yn ganllaw defnyddiol iddynt wrth iddynt wella eu hymarfer.

## Ymgysylltu â chyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth:

Yn ogystal â darllen y dogfennau'n anghydamserol a thrafodaethau proffesiynol mewn cyfarfodydd tîm a staff, manteisiodd Sunray hefyd ar ystod o gyfleoedd hyfforddi a oedd ar gael iddynt.

Mynychodd dau aelod o staff hyfforddiant awdurdod lleol gyda Kym Scott (ymgynghorydd plentyndod cynnar) a oedd yn canolbwyntio ar bob agwedd ar ddatblygiad plant 0-4 oed. Cynhaliwyd yr hyfforddiant gan dîm addysg gynnar Sir y Fflint a'i amcan oedd cefnogi ymarferwyr i ddeall egwyddorion ac addysgeg y Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ynghyd â'r Llwybrau Datblygu 0-3 oed Yn dilyn yr hyfforddiant, bu'r ddau aelod o staff yn rhannu gwybodaeth o'r hyfforddiant â chydweithwyr.

Mynychodd aelodau staff gweminar NDNA Cymru 'Cyflwyniad i Blentyndod Cynnar, Chwarae, Dysgu a Gofal (ECPLC) yng Nghymru'. Roedd y weminar yn rhoi cyflwyniad i'r gweithwyr i'r dogfennau a sut gallant eu defnyddio i gefnogi eu hymarfer yn ogystal â rhoi cyfle i ofyn cwestiynau.

Yn dilyn y gweminar, gofynnodd staff Sunray i NDNA Cymru ac yn benodol i Hayley Grayson, Swyddog Addysg Blynyddoedd Cynnar NDNA Cymru, am gefnogaeth bellach wrth roi'r ECPLC ar waith: Llwybrau Datblygiad 0 i 3.

Cefnogodd Hayley aelodau staff i ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru drwy fodiwlau Hwb ar lein sef cyfres o fodiwlau a gwybodaeth ategol ar ffurf ffeithluniau a fideos hyfforddi a gynlluniwyd i gynorthwyo ymarferwyr i fyfyrio ar ymarfer a darpariaeth wrth ddod i ddeall y pum llwybr datblygiadol, addysgeg a datblygiad sgematig. Roedd staff yn teimlo bod y cyfleoedd dysgu hyn yn cefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth sylfaenol o'r llwybrau a'r addysgeg, a ddatblygodd eu hyder wrth ystyried sut i gefnogi datblygiad cyfannol plant drwy'r llwybrau.

## Cefnogi ymarferwyr i weithredu:

Yn dilyn dysgu proffesiynol, trafodaethau tîm a chefnogaeth gan NDNA Cymru, teimlai staff yn fwy hyderus wrth roi'r llwybrau datblygiad ar waith ar draws y lleoliad, gyda'r staff i gyd yn cymryd rhan yn y broses.

Gweithiodd arweinwyr yr ystafelloedd gyda'i gilydd i ddatblygu ffolderi ar gyfer pob ystafell yn y feithrinfa, oedd yn cynnwys gwybodaeth o'r Llwybr Datblygu 0-3 ECPLC, y Fframwaith Ansawdd a dogfennau'r cwricwlwm perthnasol i anghenion datblygu'r plant yn yr ystafell. Roedd yn cynnwys syniadau ac awgrymiadau ar sut allai agweddau gael eu cynnwys mewn ymarfer. Sefydlwyd y


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

ffolderi yma i gefnogi staff i gychwyn y broses o gynnwys elfennau o’r canllawiau yn eu hymarfer. Mae’r ffolderi yn hawdd cael atynt ac yn sicrhau cysondeb ar draws y lleoliad.

Casglodd arweinwyr gwestiynau a phryderon gan aelodau staff a chysylltu â Hayley am ragor o gymorth. Ymwelodd Hayley â'r lleoliad a thrafod y cwestiynau a'r pryderon gyda'r staff. Yn dilyn yr ymweliad, defnyddiodd arweinwyr yr adborth a’r cyngor i greu dogfen gynllunio a bwrdd cynllunio newydd i’w defnyddio ar draws y lleoliad. Mae staff yn teimlo bod hyn wedi bod yn llwyddiant mawr.

Mae byrddau cynllunio wedi’u gosod ym mhob ystafell yn y lleoliad er mwyn i staff allu nodi eu syniadau ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar eu rhyngweithio a’u harsylwadau o ddiddordebau, anghenion a datblygiad parhaus y plant. Defnyddir y byrddau hyn wedyn i lywio a gwella dogfennau cynllunio i gefnogi dysgu a datblygiad plant.

Mae Sunray yn cynnal cyfarfodydd misol rhwng staff a'r tîm rheoli i drafod gweithredu parhaus, adolygu cynnydd a thrafod y camau nesaf. Mae staff yn teimlo bod hyn yn rhan werthfawr o'r broses, lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, gyda chymorth ychwanegol yn cael ei gynnig lle bo angen a bod cynnydd yn cael ei ddathlu. Mae gan Sunray hefyd gyfeiriad e-bost sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm, ac mae staff yn anfon; lluniau o syniadau i'w casglu, cwestiynau a phryderon i gael sylw a cheisiadau am gymorth pellach.

## Sut mae syniadau wedi effeithio ar blant yn y lleoliad:

Dywed staff Sunray fod mabwysiadu'r llwybrau datblygu drwy'r lleoliad wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant. Maent yn teimlo bod y broses gynllunio y maent wedi'i datblygu wedi gwella ac adeiladu ar eu hymarfer presennol dan arweiniad plant. Mae'r staff yn teimlo bod yr ethos sy'n cael ei arwain gan y plentyn wedi'i wreiddio'n well yn eu harfer ar draws y lleoliad mewn ffordd sy'n briodol i'w datblygiad. Mae’r staff yn teimlo’n hyderus wrth iddynt ddeall anghenion datblygu’r plant ac yn defnyddio eu gwybodaeth o’r plant i gynllunio a darparu adnoddau priodol i gefnogi plant i ddatblygu ystod o fedrau. Mae staff yn cyfathrebu gan ddefnyddio'r un iaith sydd wedi helpu i ddatblygu trosglwyddiadau llyfnach o fewn y lleoliad, a thu allan iddo. Mae gweithredu'r llwybrau datblygu wedi cefnogi staff i gefnogi pob plentyn unigol yn effeithiol.

Mae staff hefyd wedi defnyddio'r llwybrau datblygu i fyfyrio ar eu hamgylcheddau effeithiol, eu profiadau difyr a'u hunain fel oedolion sy'n galluogi. Mae staff yn defnyddio’r datganiadau “Mae angen i mi…” i sicrhau bod eu darpariaeth yn cefnogi datblygiad mewn ffordd gyfannol a dilys yn yr amgylcheddau a’r profiadau y maent yn eu cynnig. Maen nhw’n defnyddio “mae fy … yn cael ei gefnogi gan oedolion sy’n…” i arwain eu hunain fel oedolion sy’n galluogi i gefnogi datblygiad a gwneud y gorau o’r eiliadau dysgadwy sy’n digwydd yn ystod chwarae. Maent wedi defnyddio eu harsylwadau o blant wrth chwarae i sylwi ar sut maent yn rhyngweithio â'r amgylchedd a phlant

eraill ac wedi ymateb i'r rhain gydag addasiadau a newidiadau i'r ardaloedd tu fewn a thu allan. Mae'r holl waith hwn wedi arwain at blant hapus sydd ag ymdeimlad o berthyn, maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, gan eu bod yn gallu dilyn eu diddordebau. Teimla'r staff fod y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r amgylchedd, gan ddangos parch at y ddau.

Teimlai ymarferwyr yn Sunray fod y llwybrau datblygu yn eu hannog i gynnig cyfleoedd helaeth i blant ddatblygu eu hannibyniaeth ac anogir plant i wneud pethau drostynt eu hunain. Mae arsylwadau dilynol wedi amlygu bod plant yn dangos sgiliau mwy annibynnol yn naturiol heb ofyn am anogaeth. Maent yn cael mynediad rhwydd at adnoddau ac yn dewis beth a ble maent am chwarae.

## Camau nesaf

Mae Sunray eisoes wedi cychwyn ar y camau nesaf ar eu taith o weithredu drwy rannu syniadau cychwynnol ar sut i wella eu proses arsylwi. Oherwydd bod y lleoliad yn un mawr iawn gyda nifer uchel o blant wedi'u cofrestru, mae rheolwyr ac arweinwyr eisiau sicrhau bod arsylwadau yn rhywbeth gall staff eu cyflawni. Mae Sunray am symleiddio eu proses a gwneud eu darpariaeth a'u harferion yn fwy pwrpasol ac effeithiol. Mae Sunray wedi cynnwys y broses arsylwi fel testun ar gyfer cyfarfodydd cwricwlwm parhaus ac anogir staff i rannu eu syniadau eu hunain. Bydd Sunray unwaith eto yn defnyddio canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac yn annog trafodaeth broffesiynol ac ymgysylltu â dysgu proffesiynol gan yr awdurdod lleol a'r sefydliad ymbarél. Trwy'r awdurdod lleol, mae Sunray hefyd yn mynychu cyfarfodydd lle maent yn trafod eu taith ac yn rhoi a derbyn cefnogaeth ac adborth gan leoliadau eraill. Hoffent ddatblygu cyd-weithio pellach rhwng lleoliadau yn y dyfodol ac maent yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i wneud hynny.

## Cefnogaeth bellach

- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygiadol 0 i 3 -Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru
- **Cwricwlwm** ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir - Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir - Hwb

• **Asesiadau** ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir – Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

- Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir: **modiwlau a gwybodaeth gefnogol,** Hwb - <https://hwb.gov.wales/repository/resource/d34b921e-3b07-4524-87b5-e461540c5ff7/overview>
- Dysgu Proffesiynol: cymorth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau – **modiwlau** - https://hwb.gov.wales/repository/resource/b8781f79-5eb7-4548-a20e-a17b0da88df2/overview


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/